

## POLISI DIOGELWCH TÂN

<b>Dyddiad</b>	<b>Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid</b>	<b>Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei Gwblhau</b>
1 Mehefin 2012	Cyhoeddiad Cyntaf	
27 Chwefror 2020	Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau	17 Hydref 2019

<b>Swyddog Polisi</b>	<b>Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol</b>	<b>Cymeradwywyd gan</b>	<b>Dyddiad</b>
Pennaeth Iechyd a Diogelwch	Ysgrifennydd y Brifysgol	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch	23 Mai 2018

Caiff y polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2023

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae gan dân y potensial i achosi anafiadau, marwolaethau, difrod sylweddol i eiddo a tharfu ar weithgareddau. Mae deddfwriaeth yn rhoi dyletswydd clir ar y brifysgol i asesu'r risg o dân ac argyfyngau eraill i'w gweithwyr ac i eraill, ac i wneud trefniadau angenrheidiol i reoli risgiau er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch pawb. Mae hyn yn cynnwys mesurau i osgoi tân yn y lle cyntaf (atal), lleihau effaith tân (lliniaru) a gwybod beth i'w wneud mewn achos tân (dulliau gweithredu mewn argyfwng).

Gall tân gael effaith ddinistriol ac mae'r trefniadau a roddir ar waith gan y polisi hwn yn ceisio atal tanau rhag digwydd, neu liniaru effeithiau/elfennau pe bai tân yn digwydd, trwy addysg, ymwybyddiaeth a rheolaethau gweithdrefnol a chorfforol priodol.

## 2. DATGANIAD POLISI

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ond yn unol â'r deddfwriaeth berthnasol, gofynion statudol ac arfer da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr â'r brifysgol.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion sydd ar y brifysgol a'i cholegau a'i gwasanaethau proffesiynol o ran rheoli'r risg o dân a'r dulliau gweithredu i atal tân a lliniaru effaith tân pe digwydd tân. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu dyletswyddau a chyfrifoldebau staff, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr â'r brifysgol.

Ategir y polisi gan nifer o ddogfennau canllawiau rheoli sy'n rhoi gwybod i golegau a gwasanaethau proffesiynol, y Gwasanaethau Eiddo a Champws a'r neuaddau preswyl am yr hyn sy'n ofynnol ganddynt yn benodol.

### Mae'r polisi'n berthnasol i'r canlynol:

- Y brifysgol a'i cholegau a'i gwasanaethau proffesiynol.
- Pob aelod staff a phob myfyriwr.
- Contractwyr ac ymwelwyr â'r brifysgol.

### Nid yw'r polisi'n berthnasol i'r canlynol

- Safleoedd adeiladu dros dro.

## 3. POLISI'AU CYSYLLTIEDIG A DEDDFWRIAETH

Yn ychwanegol at y dyletswyddau cyffredinol dan y gyfraith, yn arbennig Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, mae gan y brifysgol, a'r colegau a'r gwasanaethau proffesiynol (gwasanaethau) sy'n perthyn iddi, ymrwymiad penodol dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch rhag tân) i asesu'r risg o dân er mwyn rheoli diogelwch tân yn y gwaith. Mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch rhag tân) yn rhoi'r dyletswyddau sylfaenol canlynol ar y brifysgol:

- a. Gwneud asesiad risg tân addas a digonol.
- b. Hyfforddi/rhoi cyfarwyddyd i staff i ymdrin ag argyfwng a diogelwch tân yn gyffredinol.
- c. Darparu offer canfod tân addas a/neu fodd o rybuddio am dân.
- d. Darparu offer ymladd tân.
- e. Darparu ffordd ddiogel o ddianc, yn cynnwys i rai â nodweddion gwarchoddedig.
- f. Dylunio adeiladau fel eu bod yn rheoli effeithiau posib tân a mwg.

I fannau neu weithgareddau risg uchel, efallai y bydd angen rheolaethau ac asesiadau ychwanegol, gan gynnwys y rhai a nodir yn y Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol, sy'n gofyn am asesiadau a rheolaethau manwl i amgylcheddau a allai fod yn ffrwydrol.

Mae gofynion eraill, megis ar gyfer llety a digwyddiadau myfyrwyr, hefyd yn berthnasol a manylir arnynt ymhellach yn y dogfennau canllaw cysylltiedig ac ar wefan Iechyd a Diogelwch.

#### 4. DIFFINIADAU/TERMINOLEG

**RRFSO:** Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân).

**BFRA:** Asesiadau Risg Tân Adeiladau

**Unigolyn Cyfrifol** Mae'n ofynnol gan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch rhag tân) i gyflogwyr enwi 'unigolyn cyfrifol' ar gyfer diogelwch tân. Oherwydd natur gymhleth adeiladau a gweithgareddau'r brifysgol, Prifysgol Bangor, fel y cyflogwr, yw'r 'unigolyn cyfrifol'.

#### 5. DYLETSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Bydd y brifysgol yn gwneud y canlynol:

- Darparu adnoddau digonol i sicrhau bod risgiau diogelwch tân sy'n deillio o'i hadeiladau a'i gweithgareddau yn cael eu hasesu, gyda rheolaethau priodol a rheolaethau ffisegol ar waith i reoli risgiau ac atal tân yn unol â gofynion y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch rhag tân) a deddfwriaethau cysylltiedig eraill.
- Sefydlu a gweithredu cynlluniau a threfniadau rheoli argyfwng i reoli a lliniaru'r risgiau sy'n codi.
- Sicrhau bod trefniadau diogelwch tân priodol ar waith, yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas.
- Nodi prif ddeiliaid adeiladau a dyrannu dyletswyddau a chyfrifoldebau.
- Sicrhau trefniadau priodol ar gyfer adeiladau gyda dau neu fwy o 'unigolion cyfrifol' i gadarnhau bod risgiau diogelwch tân yn cael eu rheoli a bod dulliau gweithredu mewn argyfwng yn cael eu cyfleu i'r holl bobl berthnasol.

#### 6. DYLETSWYDDAU COLEGAU A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae pob coleg/gwasanaeth yn gyfrifol am y meysydd a'r gweithgareddau sydd dan eu rheolaeth ac am reoli'r risgiau y maent yn eu creu neu'n eu cyflwyno.

Mae'r cyfrifoldeb hwnnw'n cynnwys cydweithio a rhoi mesurau diogelwch a luniwyd gan y brifysgol, y Gwasanaethau Eiddo a Champws ac eraill i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff, myfyrwyr ac ymwelwyr â'u coleg/gwasanaeth.

Bydd pob coleg a gwasanaeth proffesiynol yn gwneud y canlynol:

- Gweithredu, rheoli a monitro trefniadau diogelwch tân i fodloni gofynion y polisi hwn â'r canllawiau cysylltiedig.
- Sicrhau bod peryglon a risgiau tân, mwg a ffrwydriadau, yn cynnwys i ddigwyddiadau a hwylysur gan y coleg/gwasanaeth, yn cael eu hystyried gan eu hasesiadau risg a'u rheolaethau eu hunain, lle bo hynny'n briodol.
- I weithgareddau neu feysydd risg uchel (yn cynnwys adweithiau cemegol, storio llawer iawn o ddeunyddiau fflamadwy yn yr un lle a chynhyrchu 'llwch ac awyrgylch ffrwydrol')

cynnal asesiad risg Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol a gweithredu rheolaethau i atal digwyddiad a/neu liniaru effeithiau.

- d. Gweithredu'r argymhellion a ddarperir mewn asesiadau risg tân adeiladau sy'n berthnasol i'r coleg/gwasanaeth.
- e. Cyfathrebu a chydweithio gyda defnyddwyr eraill yr adeilad a chyda'r Gwasanaethau Eiddo a Champws ar faterion rheoli risg a threfniadau mewn argyfwng.
- f. Hysbysu a chysylltu â'r Gwasanaethau Eiddo a Champws cyn cyflwyno risg tân newydd sylweddol, fel y gellir asesu'r effaith bosib ar gyfyngu tân ac ar asesiadau risg tân adeiladau
- g. Sicrhau bod staff, myfyrwyr, gweithwyr tymor byr, academyddion ar ymweliad a phobl eraill sydd dan eu rheolaeth yn cael gwybodaeth am ddiogelwch tân a threfniadau mewn argyfwng yn cynnwys cymryd rhan mewn ymarferion tân.
- h. Adrodd am bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â tân a chynorthwyo gydag ymchwiliadau.
- i. Yn ogystal â'r uchod, bydd y colegau a'r gwasanaethau hynny sy'n brif ddeiliaid adeiladau (prif ddeiliad enwebedig) yn gwneud y canlynol:
- j. Cynnal neu drefnu ymarferion tân rheolaidd.
- k. Profi'r system larwm tân yn rheolaidd.
- l. Cadw cofnodion o bob ymarfer tân ac o bob tro y profir y larymau yn y coflyfr tân.

## **7. DYLETSWYDDAU'R GWASANAETHAU EIDDO A CHAMPWS**

Yn ogystal â'r dyletswyddau cyffredinol a ddisgrifir yn adran 5, y Gwasanaethau Eiddo a Champws sy'n gyfrifol am gynnal a chadw adeiladwaith a gwasanaethau pob adeilad, sy'n eiddo i'r brifysgol, dan brydles iddi neu wedi ei rentu ganddi (oni bai bod trefniadau eraill wedi eu gwneud trwy brydles neu gytundebau eraill). O'r herwydd, bydd y Gwasanaethau Eiddo a Champws yn gwneud y canlynol:

- a. Penodi unigolyn i oruchwylio trefniadau diogelwch tân cyffredinol mewn perthynas ag isadeileddau adeiladau'r brifysgol a'r gwasanaethau cysylltiedig.
- b. Trefnu i unigolyn cymwys ymgymryd ag asesiadau risg tân adeiladau ar gyfer pob adeilad sydd o dan reolaeth y brifysgol a'u hadolygu o bryd i'w gilydd, fel arfer bob 1-3 blynedd.
- c. Darparu systemau a chyfarpar diogelwch tân sefydlog a chludadwy ym mhob adeilad sy'n eiddo i'r brifysgol, dan brydles iddi neu wedi ei rentu ganddi (oni bai bod trefniadau eraill wedi eu gwneud trwy brydles neu gytundebau eraill).
- d. Penodi peirianwyr cymwys i osod, archwilio, profi a chynnal a chadw systemau a chyfarpar argyfwng.
- e. Darparu hyfforddiant neu wybodaeth briodol i staff a chontractwyr perthnasol y Gwasanaethau Eiddo a Champws ar ymateb i argyfyngau/larymau tân yn canu.
- f. Tynnu sylw'r brifysgol at ganfyddiadau asesiadau risg tân adeiladau a blaenoriaethu a gweithredu camau adfer (y Gwasanaethau Eiddo a Champws) sy'n adlewyrchu'r lefelau risg.
- g. Dosbarthu gwybodaeth berthnasol am asesiadau risg tân adeiladau i golegau/gwasanaethau proffesiynol, ac wedi hynny diweddarau asesiadau risg tân adeiladau gyda'r camau wedi eu cwblhau a'r sgoriau risg diwygiedig, yn ôl yr angen.
- h. Ymchwilio i adroddiadau am achosion o ganu larymau tân a chymryd camau adfer priodol.

- i. Cofnodi pob achos o larwm tân yn canu a phob achos o dân a choladu ystadegau rheoli tân.
- j. Cynhyrchu ac adolygu'n rheolaidd dogfen ddylunio o'r pwysigrwydd mwyaf, sef y Strategaeth Tân a Dylunio, sy'n nodi gofynion sylfaenol i gyfeirio manylebau dilynol manylach.

Ar gyfer unrhyw waith adeiladu ac adnewyddu, bydd y Gwasanaethau Eiddo a Champws yn sicrhau'r canlynol:

- k. Bod y Strategaeth Tân a Dylunio (manylebau) ac arfer da yn y sector yn cael eu hystyried mewn modd addas cyn ymgymryd â phrojectau adeiladu newydd, yn ystod newidiadau i adeilad ac wrth ddylunio systemau tân.
- l. Bod peirianwyr/unigolion cymwys yn cael eu penodi i gynllunio gwaith project â rheoliadau diogelwch tân cysylltiedig.
- m. Bod gwaith dylunwyr a chontractwyr a benodir a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hynny yn cael eu rheoli'n briodol.
- n. Cydymffurfio â gofynion statudol perthnasol, rheoliadau adeiladu a chanllawiau a safonau diogelwch tân priodol a gynhyrchir gan Lywodraeth EM, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, a gofynion perthnasol eraill (megis rhannau perthnasol o'r UUK Code of Accommodation Practice).
- o. Bod y cynnwys a'r camau sydd wedi eu cynnwys yn yr asesiadau risg tân adeiladau presennol yn cael eu hystyried a'u trin, lle bo hynny'n briodol.
- p. Sicrhau bod yr asesiad risg tân adeiladau yn cael ei adolygu ar ôl cwblhau unrhyw waith a/neu fod asesiad risg tân adeiladau newydd yn cael ei drefnu yn ôl y gofyn
- q. Bod cynlluniau a data CAFM yn cael eu diweddarau a'r gwybodaeth yn cael ei lledaenu i eraill yn ôl yr angen.
- r. Bod effaith diogelwch tân ar bobl anabl yn cael ei hystyried a bod trefniadau addas yn eu lle.
- s. Bod deiliaid trwyddedig trydydd parti eiddo'r brifysgol yn cydweithredu ac yn cydlynu ar faterion yn ymwneud â diogelwch tân.

## **8. YCHWANEGOL DYLETSWYDDAU'R GWASANAETHAU MASNACHOL**

Swyddogaeth graidd y Gwasanaethau Masnachol yw cefnogi digwyddiadau ledled y brifysgol i staff a myfyrwyr y brifysgol a'r cyhoedd. Yn hynny o beth, yn ychwanegol at y dyletswyddau cyffredinol a amlinellir yn Adran 6, rhaid i'r Gwasanaethau Masnachol sicrhau bod trefnwyr digwyddiadau, sy'n archebu digwyddiadau yn ffurfiol trwy'r adran, yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelwch tân wrth gynnal digwyddiadau yn y brifysgol.

Mae'r Gwasanaethau Masnachol hefyd yn rheoli neuaddau preswyl y brifysgol. Mae'n hanfodol sicrhau diogelwch preswylwyr/defnyddwyr adeiladau preswyl sy'n eiddo i'r brifysgol, dan brydles iddi neu wedi eu rhentu ganddi (oni bai y trefnir yn wahanol trwy gytundebau prydlesol neu gytundebau eraill). Mae'r cyfrifoldebau diogelwch tân penodol mewn perthynas â neuaddau yn cynnwys:

- a. Cadarnhau bod asesiadau risg tân adeiladau yn cael eu gwneud gan unigolyn cymwys i bob neuadd breswyl, yn cynnwys y rhai a reolir gan drydydd parti neu sy'n eiddo i drydydd parti.

- b. Sicrhau bod cytundebau contract penodol gyda darparwyr llety trydydd parti yn cadarnhau eu bod yn bodloni safonau diogelwch tân yr Universities UK Code of Practice for University Managed Student Accommodation.
- c. Sicrhau bod yr holl systemau a threfniadau tân yn cael eu profi a'u cynnal.
- d. Sicrhau bod anghenion preswylwyr ag anabledd, sy'n amharu ar eu gallu i wybod bod larwm tân yn canu neu sy'n amharu ar eu gallu i adael yr adeilad yn ddiogel, yn cael eu hystyried a'u rheoli.
- e. Datblygu a gweithredu dulliau gweithredu priodol i ymateb i argyfwng/larymau tân yn canu.
- f. Darparu hyfforddiant priodol i staff perthnasol ar ymateb i argyfyngau/larymau tân yn canu.
- g. Sicrhau bod preswylwyr yn derbyn gwybodaeth diogelwch tân addas cyn cyrraedd neu ar ôl cyrraedd, a bod ymarferion tân yn digwydd y mae'n rhaid i drigolion gymryd rhan ynddynt.

## 9. DYLETYSWYDDAU STAFF A MYFYRWYR

Mae'n rhaid i bob aelod staff a phob myfyriwr wneud y canlynol:

- a. Cymryd rhan a chydweithredu mewn ymarferion tân a gwacáu mor gyflym a diogel ag sy'n ymarferol bosib.
- b. Mynd i sesiynau hyfforddi perthnasol.
- c. Cydymffurfio â'r holl reolaethau a gweithdrefnau rheoli diogelwch tân.
- d. Peidio ag ymyrryd â systemau/cyfarpar a ddarparwyd at ddibenion diogelwch.
- e. Adrodd am bryderon i'w goruchwyliwr/rheolwr llinell neu adran briodol y brifysgol.
- f. Peidio â defnyddio fflamau agored, yn cynnwys canhwylau, aroglarth, llosgwyr olew, yn y neuaddau preswyl nac yn y swyddfydd.
- g. Gofyn am gymeradwyaeth y swyddfa Iechyd a Diogelwch (Llywodraethu a Chydymffurfio) os ydynt eisiau defnyddio tân gwyllt neu beiriannau mwg.
- h. Sicrhau bod gwresogyddion trydan yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac nad ydynt yn cael eu defnyddio ger deunyddiau llosgadwy, nad ydynt yn cael eu gorchuddio a'u bod yn cael eu diffodd pan nad oes unrhyw un yn yr ystafell am unrhyw gyfnod o amser. (SYLWER: gwaherddir defnyddio gwresogyddion trydan gydag 'elfennau agored').

## 10. RHAGOR O GYFARWYDDYD

- Canllaw Rheoli Diogelwch Tân y Gwasanaethau Eiddo a Champws.
- Canllawiau rheoli diogelwch tân colegau a gwasanaethau
- Canllawiau rheoli diogelwch tân neuaddau preswyl

## 11. ASESIAID EFFAITH CYDRADDOLDEB

Rhaid gwneud pob ymdrech i gefnogi unigolion er mwyn eu trin yn gyfartal a'u galluogi i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r brifysgol yn yr un modd â'u cyfoedion.

Mae trefniadau rheoli diogelwch tân y brifysgol yn ei gwneud yn glir bod rhaid rhoi ystyriaeth addas i bobl sydd ag anableddau a allai effeithio ar eu cyflymder i ddeall bod argyfwng neu ar eu gallu i ddeall bod argyfwng neu ar eu gallu i adael yr adeilad yn ddiogel ac yn gyflym. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn cynnwys gosod systemau larwm tân clywadwy neu weledol neu rai sy'n crynu yn lleol a sefydlu lloches ddiogel addas er mwyn i'r sawl allu disgwyl am gymorth i adael yr adeilad yn ddiogel.

Ond mewn rhai achosion prin iawn, efallai y bydd angen trin 'pobl sydd â nodwedd warchoddedig' yn wahanol er mwyn diogelu eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles hwythau. Caiff unrhyw ystyriaethau o'r fath eu trafod gyda'r unigolyn a chytunir ynglŷn ag addasiadau rhesymol.

## **12. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO**

Bydd Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu a Chydymffurfio, yn cynnal archwiliadau cyffredinol ac achlysurol i sicrhau cydymffurfiad gyda'r polisi hwn neu chydag agweddau ar y polisi hwn a deddfwriaeth berthnasol.

Rhaid i'r colegau/gwasanaethau proffesiynol adolygu eu dulliau gweithredu eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y polisi hwn yn cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

Yn ogystal, gall Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y brifysgol o bryd i'w gilydd adolygu effeithiolrwydd y polisi hwn.

**Diwedd.**